



CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

GWEITHDREFN AR GYFER RHOI GWYBOD AM DDIGWYDDIADAU AC ACHOSION YN YMWNEUD Â DIOGELWCH GWYBODAETH

Fersiwn: TERFYNOL v2.3 wef 22.10.2025

Cynnwys

1.	Pam mae rhaid i mi roi gwybod am ddigwyddiad/achos yn ymwneud â diogelwch gwybodaeth?	4
2.	Beth yw digwyddiad neu achos yn ymwneud â diogelwch gwybodaeth?	5
3.	Sut mae rhoi gwybod am achos neu ddigwyddiad yn ymwneud â diogelwch gwybodaeth?	6
4.	Pa wybodaeth sy'n ofynnol i roi gwybod amdani?	7
5.	Beth fydd yn digwydd nesaf?	8
6.	Pethau allweddol i'w cofio	8

Atodiad

I.	Enghreifftiau o ddigwyddiadau/achosion yn ymwneud â diogelwch gwybodaeth	9
----	--	---

Cyflwyniad

Yn unol â Pholisi Diogelwch Gwybodaeth y Cyngor, mae gan weithwyr, contractwyr a chyflenwyr trydydd parti, neu unrhyw un sydd â mynediad at ddata'r Cyngor, waeth ym mha fformat, system neu ased y maen nhw'n cael eu cadw, **gyfrifoldeb personol i roi gwybod** am unrhyw achos neu ddigwyddiad posibl, unrhyw amheuan ac unrhyw achosion pendant yn ymwneud â diogelwch gwybodaeth cyn gynted ag y bydd yr achos/digwyddiad yn dod i'r sylw.

Mae'r weithdrefn yma'n nodi'r camau i'w dilyn wrth **roi gwybod** am unrhyw achos neu ddigwyddiad diogelwch gwybodaeth, ac mae'n berthnasol i bob gweithiwr, aelod etholedig, contractwr, cyflenwr trydydd parti, ac unrhyw un sydd â mynediad at ddata, systemau neu asedau'r Cyngor.

Dogfennau Perthnasol:

Dylid darllen y weithdrefn yma ar y cyd â dogfen **Gweithdrefn ar gyfer ymchwilio i ddigwyddiadau ac achosion yn ymwneud â diogelwch gwybodaeth** y Cyngor, sy'n amlinellu sut y dylid ymchwilio i achosion a digwyddiadau. Mae'r ddwy ddogfen, ynghyd â'r Polisi Diogelwch Gwybodaeth, i'w gweld ar RCT Source neu Inform (*Gwasanaethau Cymorth > Rheoli Gwybodaeth > Polisiâu*).

Nodyn ar gyfer Aelodau Etholedig:

Dylai Aelodau Etholedig gyfeirio at y **Polisi Defnydd Derbyniol ar y Rhyngrwyd a Chyfleusterau E-bost a ThGCh yr Aelodau Etholedig** a Phorth yr Aelodau i gael mynediad at ddogfennaeth berthnasol a chanllawiau ar eu cyfrifoldebau penodol.

1. Pam mae rhaid i mi roi gwybod am achos/digwyddiad yn ymwneud â diogelwch gwybodaeth?

Mae rhoi gwybod am achosion neu ddigwyddiadau yn ymwneud â diogelwch gwybodaeth yn hanfodol er mwyn cynnal amgylchedd gwaith diogel ar draws y Cyngor. Mae'n diogelu **cyfrinachedd, uniondeb ac argaeledd** ein data, ein systemau a'n asedau, ac mae'n chwarae rhan hanfodol wrth reoli risg yn effeithiol.

Mae rhoi gwybod mewn modd amserol a chywir yn galluogi'r Cyngor i:

- **Ymateb yn gyflym** er mwyn cynnwys a lliniaru niwed posibl
- **Nodi patrymau a gwendidau** drwy ddadansoddi tueddiadau
- **Cryfhau mesurau ataliol** a gwella ymwybyddiaeth staff
- **Diogelu ymddiriedaeth y cyhoedd** drwy ddangos atebolrwydd a thryloywder

1.1 Achosion / digwyddiadau diogelwch gwybodaeth yn ymwneud â data personol

Wrth brosesu data personol, mae gan y Cyngor rwymedigaeth gyfreithiol i gydymffurfio â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018 (DPA). Mae'r rheoliadau yma yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gael gweithdrefnau rheoli digwyddiadau cadarn ar waith i ganfod, rhoi gwybod, ymchwilio, lliniaru, datrys a dysgu o unrhyw ddigwyddiad diogelwch gwybodaeth sy'n ymwneud â data personol (y cyfeirir ato fel *tor diogelwch data personol*).

Os yw tor diogelwch data personol yn debygol o beri risg i hawliau a rhyddid unigolion yr effeithir arnyn nhw, rhaid i'r Cyngor hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) cyn pen **72 awr** o ddod yn effro i'r tor. Os yw'r tor yn debygol o arwain at **risg uchel** i hawliau a rhyddid unigolion, rhaid i'r Cyngor hefyd hysbysu'r unigolion yr effeithir arnyn nhw **cyn gynted ag y bo modd**. Gall methu â hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) neu'r unigolion yr effeithir arnyn nhw pan fo angen arwain at gamau gorfodi. Mae'n hanfodol eich bod yn rhoi gwybod am **unrhyw** achos neu ddigwyddiad diogelwch gwybodaeth, ni waeth pa mor fach y mae'n ymddangos, ar unwaith ac yn unol â'r weithdrefn yma.

Noder: Mae'n ofynnol i'r Cyngor gadw cofnod o **bob** tor diogelwch data personol, waeth a yw Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) a/neu'r unigolion yn cael eu hysbysu neu beidio.

2. Beth yw achos/digwyddiad yn ymwneud â diogelwch gwybodaeth?

Mae'r term **achos/digwyddiad diogelwch gwybodaeth** yn eang ac mae modd iddo gwmpasu ystod eang o sefyllfaoedd. Er nad yw'n bosibl rhestru pob sefyllfa posibl, mae'n cyfeirio'n gyffredinol at unrhyw dor diogelwch gwirioneddol, amheus, neu bosibl a allai beryglu **cyfrinachedd, uniondeb, neu argaeledd** data, systemau neu asedau'r Cyngor.

Mae achosion a digwyddiadau yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i'r canlynol:

- **Colli neu ladrad** gwybodaeth bersonol, gyfrinachol neu sensitif yn fasnachol ar bapur
- **Colli neu ddwyn** un o ddyfeisiau'r Cyngor – megis cyfrifiadur personol, gliniadur, llechen neu ffôn (hyd yn oed os yw'r ddyfais wedi'i hamgryptio)
- **Camgymeriadau wrth gyfathrebu** e.e. e-bostio data personol, cyfrinachol neu sensitif yn fasnachol at y person anghywir, anfon llythyr i'r cyfeiriad anghywir
- **Datgeliad damweiniol** gwybodaeth bersonol, gyfrinachol, neu wybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol
- **Mynediad anawdurdodedig** i systemau a data'r Cyngor – e.e. gweithiwr yn cyrchu data am resymau personol
- **Dinistrio, addasu neu newid** systemau data, systemau neu asedau'r Cyngor mewn modd maleisus neu amhriodol waeth beth fo'u fformat (ffisegol neu electronig)
- **Mynediad heb awdurdod** at ddata gan drydydd parti
- **Feirws cyfrifiadurol neu faleiswedd**
- **Derbyn e-bost gwe-rwydo**
- **Rhannu cyfrineiriau** gydag unigolion heb awdurdod

Mae modd dod o hyd i enghreifftiau o'r mathau mwyaf cyffredin o achosion a digwyddiadau diogelwch gwybodaeth yn **Atodiad I**. Nid yw'r rhestr yma yn gynhwysfawr.

Nodwch: Rhaid i bob aelod o staff roi gwybod am unrhyw broblem lle maen nhw'n credu bod **achos rhesymol** o risg i ddiogelwch data personol, cyfrinachol, neu ddata sy'n sensitif yn fasnachol, **ni waeth pa mor fach y gall ymddangos**.

3. Sut mae rhoi gwybod am achos/ddigwyddiad yn ymwneud â diogelwch gwybodaeth?

Gweithwyr

Rhaid i weithwyr, staff asiantaeth, hyfforddeion, unigolion ar leoliadau gwaith, ac unrhyw un sy'n gweithio i'r Cyngor neu ar ei ran (boed dros dro neu'n barhaol) roi gwybod ar unwaith am unrhyw achos neu ddigwyddiad diogelwch gwybodaeth posibl, amheus, neu wirioneddol i'r canlynol:

- Eu Rheolwr Llinell, a
- Desg Gwasanaeth TGCh

Manylion Sefydlu Aelodau Etholedig

Rhaid i aelodau etholedig roi gwybod am unrhyw achosion neu ddigwyddiadau diogelwch gwybodaeth posibl ar unwaith i Swyddog Monitro'r Cyngor, a fydd yn rhoi gwybod i'r Ddesg Gwasanaeth TGCh ar eu rhan.

Contractwyr, cyflenwyr trydydd parti

Rhaid i gontractwyr, cyflenwyr trydydd parti ac unrhyw un sydd â mynediad at ddata, systemau neu asedau'r Cyngor roi gwybod ar unwaith am unrhyw achosion neu ddigwyddiad diogelwch gwybodaeth posibl, amheus neu wirioneddol i'r unigolyn cyswllt dynodedig yn y Cyngor, fel y'i diffinnir yn y contract perthnasol, y cytundeb mynediad at ddata neu ddogfennaeth lywodraethol arall.



Argymhellir eich bod yn rhoi gwybod am achosion neu ddigwyddiadau diogelwch gwybodaeth i'ch Rheolwr Llinell (neu'r Swyddog Monitro) a'r Ddesg Gymorth TGCh dros y ffôn ar 01443 570000, lle bynnag y bo modd.

Mae rhoi gwybod dros y ffôn yn helpu i sicrhau bod galwad Diogelwch TGCh yn cael ei gwneud yn brydlon a'i hanfon at y garfan priodol i weithredu arni.

4. Pa wybodaeth sy'n ofynnol wrth roi gwybod am achos neu ddigwyddiad?

Mae'n bwysig darparu cymaint o fanylion â phosibl wrth roi gwybod am achosion neu ddigwyddiad diogelwch gwybodaeth. Mae hyn yn galluogi'r Garfan Rheoli Gwybodaeth / Seiberddiogelwch i asesu natur a difrifoldeb y sefyllfa'n gyflym, gwerthuso lefel bosibl y risg a'r effaith, a defnyddio mesurau cyfyngu priodol.

Er bod modd i'r manylion penodol amrywio yn dibynnu ar y math o achos neu ddigwyddiad, dylid darparu isafswm gwybodaeth yn cynnwys y manylion canlynol :

- ✓ Enw, cyfadran/adran, teitl swydd a manylion cyswllt y sawl sy'n rhoi gwybod am y digwyddiad.
- ✓ Enw, cyfadran/adran, teitl swydd a manylion cyswllt y person sy'n gyfrifol am y digwyddiad (lle mae'n hysbys neu os yw hynny'n berthnasol).
- ✓ Disgrifiad o'r achos neu'r digwyddiad posibl, sy'n cael ei amau neu sy wedi digwydd.
- ✓ Dyddiad ac amser yr achos neu ddigwyddiad.
- ✓ Lleoliad yr achos neu ddigwyddiad (os yw'n berthnasol).
- ✓ Categoriâu'r data yr effeithiwyd arnyn nhw gan yr achos neu'r digwyddiad (e.e. gwybodaeth ariannol, gwybodaeth iechyd) (Nodwch: Peidiwch â chynnwys na rhannu unrhyw ddata personol gwirioneddol, copiâu na dyfyniadau wrth adrodd i'r Ddesg Gwasanaeth TGCh. Dim ond y categori sydd ei angen yn ystod y cam yma. Os oes angen rhagor o fanylion ar gyfer yr ymchwiliad, bydd gofyn amdanyn nhw'n ddiweddarach).
- ✓ Lle mae data personol yn cael ei effeithio, nodwch y nifer bras o unigolion a'r mathau o unigolion y mae'r data'n ymwneud â nhw (e.e., defnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr, cwsmeriaid).
- ✓ Math, rhifau'r asedau a lleoliad yr offer sy'n cael eu heffeithio (lle bo hynny'n berthnasol).
- ✓ P'un a yw'r achos/digwyddiad yn ymwneud â diogelwch yn peryglu unrhyw berson neu ddata arall.
- ✓ Unrhyw gamau sydd wedi'u cymryd i adfer/reoli'r sefyllfa.

Mae darparu gwybodaeth glir a chyflawn yn helpu i sicrhau ymateb cyflym ac effeithiol. Os ydych chi'n ansicr a yw rhywbeth yn berthnasol, mae'n well ei gynnwys na pheidio â'i nodi.

Nodwch: gan ddibynnu ar natur yr achos/digwyddiad, efallai y bydd angen gwybodaeth bellach a manylach yn rhan o'r broses ymchwilio.

5. Beth fydd yn digwydd nesaf?

Unwaith y bydd galwad diogelwch gwybodaeth wedi'i nodi, bydd y Ddesg Gwasanaeth TGCh yn ei dyrannu i'r garfan briodol, megis y Garfan Rheoli Gwybodaeth, y Garfan Seiberddiogelwch, neu'r ddau, gan ddibynnu ar natur a chymhlethdod y digwyddiad.

Bydd y garfan a ddyranwyd yn cynnal adolygiad cychwynnol mewn perthynas â'r alwad. Os oes angen, mae modd cysylltu â'r sawl a gyflwynodd yr alwad er mwyn:

- Darparu gwybodaeth ychwanegol
- Cynorthwyo gyda chamau rheoli ar unwaith

Yn dilyn hyn, bydd yr achos neu'r digwyddiad yn cael ei ymchwilio yn unol â **Gweithdrefn ar gyfer ymchwilio i ddigwyddiadau ac achosion yn ymwneud â diogelwch gwybodaeth** y Cyngor.

6. Pethau allweddol i'w cofio

- **Dylech chi roi gwybod am achosion neu ddigwyddiadau bob amser**, hyd yn oed os ydych chi'n credu nad oes unrhyw niwed wedi digwydd
- **Dylech chi roi gwybod yn brydlon a heb oedi** – mae rhoi gwybod mewn modd amserol yn helpu i ddiogelu data, systemau ac asedau'r Cyngor
- Mae gweithdrefn digwyddiadau yn berthnasol i **bob math o ddata, systemau ac asedau** – nid data personol yn unig
- Mae'r broses ddigwyddiadau wedi'i chynllunio i **ddatrys problemau a chynorthwyo dysgu**, dim rhoi bai
- Os ydych chi'n ansicr mewn perthynas â beth i roi gwybod, neu os oes angen rhagor o arweiniad arnoch chi, cysylltwch â'r Ddesg Gymorth TGCh, y Garfan Rheoli Gwybodaeth neu'r Garfan Seiberddiogelwch.

Atodiad 1: Enghreifftiau o achosion/digwyddiadau yn ymwneud â diogelwch gwybodaeth

Mae enghreifftiau o achosion/digwyddiadau cyffredin yn ymwneud â diogelwch gwybodaeth wedi'u nodi isod. Nodwch **nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr** a'i bwriad yw dangos y math o bethau y dylech chi roi gwybod amdany'n nhw fel mater diogelwch gwybodaeth posibl, sy'n cael ei amau neu sydd wedi digwydd.

Dulliau Rheoli Mynediad i DGCh

- Rhannu cyfrineiriau gydag eraill
- Defnyddio manylion mewngofnodi defnyddiwr arall (enw defnyddiwr a chyfrinair)
- Ysgrifennu cyfrineiriau i lawr a'u gadael yn weladwy neu'n hygyrch i eraill

Diogelwch TGCh

- Derbyn negeseuon e-bost gwe-rwydo yn gofyn am wybodaeth bersonol, sensitif neu gyfrinachol
- Derbyn e-byst diofyn annymunol
- Anfon negeseuon e-bost cadwyn ymlaen sy'n annog dosbarthiad torfol
- Rhybuddion gwrthfeirws yn ymddangos ar eich dyfais
- Defnyddio meddalwedd heb ei gymeradwyo neu feddalwedd heb ei drwyddedu
- Canfod maleiswedd, meddalwedd wystlo, neu feddalwedd faleisus arall

Dyfeisiau TGCh

- Colli neu ladrad cyfryngau cludadwy (e.e. DVD, cof bach USB, cerdyn cof), hyd yn oed os ydyn nhw wedi'u hamgryptio
- Colli neu ladrad caledwedd y Cyngor (e.e. cyfrifiaduron personol, gliniaduron, llechi, ffonau, argraffyddion, camerâu), waeth beth fo'r data sydd wedi'i storio
- Dyfeisiau na ellir eu lleoli na'u cyfrif (e.e. ar goll o leoliadau storio disgwylidiedig)

Trosglwyddo Data (Ffacs, e-bost, post, ac ati)

- Anfon gwybodaeth bersonol, sensitif neu gyfrinachol at y derbynnydd anghywir
- Anfon gwybodaeth bersonol/sensitif/cyfrinachol anghywir neu ormodol
- Cynnwys data personol amherthnasol mewn cyfathrebiadau ar gam

Datgelu Amhriodol

- Unigolion anhysbys yn gofyn am fynediad at ddata, systemau neu asedau'r Cyngor
- Datgelu gwybodaeth bersonol, sensitif neu gyfrinachol i rywun heb awdurdod priodol – ar lafar, yn ysgrifenedig, neu'n electronig
- Cyhoeddi gwybodaeth sensitif ar-lein yn ddamweiniol neu'n fwriadol
- Gwybodaeth anghywir neu amhriodol wedi'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor
- Datgelu gwybodaeth heb awdurdod i'r wasg neu'r cyfryngau

Colli Data

- Colli gwybodaeth bersonol, sensitif neu gyfrinachol wrth ei chludo, waeth beth fo'i fformat
- Gwybodaeth na ellir ei lleoli na'i chyfrif mwyach

- Argraffiadau heb eu casglu sy'n cynnwys data sensitif a adawyd ar argraffyddion neu ddyfeisiau amlswyddogaethol
- Llythyrau neu ddogfennau nad ydyn nhw'n cyrraedd eu cyrchfan bwriadedig

Cael gwared ar wybodaeth

- Methu â gwaredu â gwybodaeth sensitif ar bapur yn ddiogel (e.e. peidio â'i rhwygo)
- Storio gwybodaeth sensitif yn annïogel wrth aros i gael ei gwared
- Methu â chael gwared ar ddyfeisiau TGCh yn ddiogel drwy'r Ddesg Gwasanaethau TGCh

Diogelwch Ffisegol

- Colli neu ladrad gwybodaeth mewn unrhyw fformat (e.e. ffeiliau copi caled, offer cyfrifiadurol)
- Storio gwybodaeth sensitif mewn lleoliadau heb eu diogelu (e.e. cypyrddau, ystafelloedd, manau cyhoeddus heb eu cloi)
- Mannau heb eu diogelu lle mae gwybodaeth sensitif yn cael ei chadw

Mynediad/Datgeliad Heb Awdurdod

- Cyrchu neu ddatgelu gwybodaeth bersonol/sensitif/gyfrinachol heb awdurdod na chydysniad priodol
- Rhannu gwybodaeth bersonol, sensitif neu gyfrinachol ag unigolion heb awdurdod
- Gwerthu neu gynnig gwerthu gwybodaeth bersonol, sensitif neu gyfrinachol sydd wedi dod i'ch meddiant yn anghyfreithlon

Rheoli'r fersiwn

Rhif y fersiwn	Dyddiad cymeradwyo	Yn ddilys o	Yn ddilys hyd at	Newidiadau wedi'u gwneud
1.0	10.08.2016	10.08.2016	10.08.2017	Gweithdrefn newydd wedi'i datblygu yn seiliedig ar bolisi blaenorol Ymchwilio i Ddigwyddiadau Gwybodaeth.
1.1	10.08.2017	11.08.2017	24.05.2018	Wedi'i hadolygu gan y garfan Rheoli Gwybodaeth – dim newidiadau
2.0	19.03.2018	25.05.2018	27.11.2022	Wedi'i hadolygu yn unol â gofynion Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol.
2.1	28.11.2022	28.11.2022	12.11.2024	Adolygiad arferol gan y Swyddog Diogelu Data. Dim newidiadau sylweddol ar wahân i'r fformat.
2.2	13.11.2024	13.11.2024	21.10.2025	Adolygwyd oherwydd newidiadau i broses adrodd galwadau Desg Gwasanaeth TGCh.
2.3	22.10.2025	22.10.2025		Newidiadau yn dilyn adborth gan Aelodau Etholedig – diweddariad i gyfeirio'n glir at y weithdrefn gefnogol ar gyfer ymchwilio i achosion a digwyddiadau. Hefyd, adolygiad cyffredinol o eiriad, gramadeg ac ati.